**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD IAU, 16 MEDI 2021**

**BWRDD GOFAL CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES Y CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: P.D.Richards (Cadeirydd) a/ac L.Jones

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

A.Jarrett, J.Hodges, N.Headon a/ac C.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd P D Richards yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2021 fel cofnod cywir.

3. **BLAENRAGLEN WAITH 2021/2022**

Nodi'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2021/2022.

4. **ADRODDIAD BLYNYDDOL DIOGELU GORLLEWIN MORGANNWG 2020-21**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

5. **CYNLLUN BLYNYDDOL BWRDD DIOGELU GORLLEWIN MORGANNWG 2021/2022**

Nodwyd, o ran yr Asesiad Effaith Integredig, fod yr adroddiad yn dweud "Nid oes gofyniad i gynnal Asesiad Effaith Integredig gan fod yr adroddiad hwn at ddibenion monitro/gwybodaeth", ond holodd yr aelodau ynghylch hyn, gan fod yr adroddiad ar gyfer gwneud penderfyniad. Dywedodd swyddogion wrth yr aelodau y byddai hyn yn cael ei ystyried, a'i adrodd yn ôl y tu allan i'r cyfarfod.

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo Cynllun Busnes Blynyddol ar y Cyd Bwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg 2019/20, sydd wedi'i atodi fel Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'n ofynnol i Fyrddau Diogelu lunio a chyhoeddi cynllun busnes blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

6. **CYTUNDEB GRANT AR GYFER CYFLWYNO DARPARIAETH SEIBIANT BYR I OFALWYR DI-DÂL**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

7. **TREFNIADAU GRANT AR GYFER ARIAN SBARDUNO**

**Penderfyniad:**

Rhoddir awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion ddyfarnu arian sy'n cynnwys Cronfa Trawsnewid Llywodraeth Cymru, ac ymrwymo i gytundebau grant gyda sefydliadau y mae eu ceisiadau am

Arian Sbarduno wedi'u gwerthuso fel rhai sy'n bodloni gofynion cais y Gronfa Sbarduno orau.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Sicrhau bod trigolion Castell-nedd Port Talbot yn elwa i'r eithaf o fuddion y Gronfa Drawsnewid drwy ddyfarnu Arian Sbarduno mewn modd amserol i'r ymgeiswyr llwyddiannus.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 8. CYNIGION Y BWRDD IECHYD I NEWID GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL POBL HŶN

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

## 9. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

**PENDERFYNWYD:** Yn unol ag Adran 100A(4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y cyhoedd o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraffau 13 ac 14 o Ran 4 Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

## 10. RHEOLIADAU GWASANAETHAU RHEOLEIDDIEDIG (DARPARWYR GWASANAETHAU AC UNIGOLION CYFRIFOL) (CYMRU) 2017

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi'r adroddiad.

## 11. CYTUNDEBAU GRANT AR GYFER CYFLAWNI PROSIECTAU PEILOT A ARIENNIR GAN Y GRANT CYMORTH TAI

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi'r adroddiad.

**CADEIRYDD**